Hwb Llawfeddygol
Ysbyty Llandochau
Surgical Hub
@Llandough

Gwybodaeth am ryddhau cleifion ar ôl anesthetig lleol

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Cawsoch **anesthetig lleol** ar gyfer eich triniaeth heddiw.

Meddyginiaeth yw hon sy'n gwneud yr ardal o'r corff lle caiff ei chwistrellu yn ddideimlad er mwyn caniatáu i'r driniaeth gael ei chynnal yn gyfforddus. Nid yw'n eich rhoi chi i gysgu.

Cysylltwch â'ch Meddyg Teulu/111 os oes gennych unrhyw bryderon neu os ydych chi'n profi unrhyw un o'r canlynol gartref:

- Tymheredd uchel.
- Pryderon ynghylch clwyfau e.e. gwaedu, chwyddo, cochni, crawn/arllwysiad.
- Poen difrifol neu sy'n gwaethygu.

Gall y rhain fod yn arwyddion o haint a dylid eu trin yn brydlon.

Gofalu amdanoch chi'ch hun:

- Cymerwch paracetamol yn ôl yr angen ar gyfer poen.
- Gallwch ddychwelyd i'r gwaith a'ch gweithgareddau arferol pryd bynnag y teimlwch y gallwch, oni bai eich bod wedi cael cyngor gwahanol.

Rhifau cyswllt allweddol

- Hwb Llawfeddygol (7am-7pm Llun-Gwener):

  Hwb Llawfeddygol (Llawr Cyntaf) - **02921 826510**

  Hwb Llawfeddygol (Llawr Gwaelod) - **02921 826348**
- **Eich Meddyg Teulu**
- **111** ar gyfer gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau neu'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys

Fersiwn 1.1 Mai 2026